

980)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting--Yr Hen Gapel,Pencader –Mehefin 15ed 2015 am 8yh.

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:

Val Davies	Glyn Jones	Raymond Lewis
Eirian Jones	Marc Jones	Keith Lewis
Annette Davies	Melfyn Evans	Sian Thomas
Haulwen Lewis	Yvonne Griffiths	C.Sir Linda Evans

Clerc: S.Anita Evans

Ymddiheuriadau: Lynn Evans

Absennol: neb

Cyfieithydd: Hefin Jones

Ymwelwyr: PCSO Alice James,M.Davies,O.Davies.

Croesawodd y cadeirydd,Val Davies bawb i'r cyfarfod.

1)Gwahoddwyd yr Heddwas i roi gwybodaeth.Dywedodd fod prosiect ar y gweill gan yr Heddlu i leihau ceir yn goryrru mewn cymunedau.Mae'r Heddlu yn gwahodd pentrefwyr i weithio mewn grwpiau o 3(gellir cael mwy nag un grŵp o fewn un pentref).Ceir peth hyfforddiant gan Seargant,a bydd pob grŵp yn cael teclyn darllen cyflymder,a gwaith papur i roi manylion y ceir a'u cyflymder.Bydd y gyrrwr sy wedi gor-yrru yn cael llythyr o rybudd oddiwrth yr Heddlu. PCSO update:PCSO Alice James outlined the latest Police project to lessen speed throughout our communities.This is called Community Speed Watch.Groups of 3 will be trained by a Seargant to use a hand held meter,record the car number plate,and the speed,and pass on the paperwork to the Police.The offending driver will then receive a warning letter from the Police.Villages may have more than one of these groups.

Diolchwyd i'r Heddw as cyn iddi adael.The chairman Val Davies thanked the PCSO.Gan nad oedd ymwelwyr di-Gymraeg yn bresennol,gadawodd Hefin Jones(the translator's services were not required,and Hefin Jones left).

2)Datganiad o ddiddordeb—dim i'w nodi/no declaration of interest.

3)Cyhoedd:gofynnodd Meinir Davies pryd fyddai'r we-fan yn gweithredu.Meinir Davies asked about the progress of the web-site.

4)Cofnodion mis Mai: cafwyd yn gywir Yvonne Griffiths yn cynnig,ac Annette Davies yn eilio.Minutes found to be correct.

5)Materion yn codi/matters arising:

981a)Llwybr tu ôl Heddfryn New Inn—derbyniwyd e-bost(S)-oddiwrth Jason Lawday(materion cefn gwlad)yn dweud fod y mater dan sylw wedi ei ddatrys/the matter of 2 cars parked on the footpath behind Heddfryn,New Inn is solved.

b)Diweddara oddiwrth Tony Williams(Priffyrdd)ar ôl ein cwynion:

i)tyllau ar hewl Gwalia Pencader i gael sylw;ii)hefyd draeniau ar bwys siop y sgwâr a phalmant o flaen rhif un Glanawmor i gael tar;iii)rhediad cerrig ar dop rhiw Alltwalis i gael sylw.Does dim arian ar hyn o bryd i wella hewl Gwyddgrug—Pencader,nac ym mhentre Gwyddgrug.The County Council Highways Dept.are dealing with blocked drains on Pencader square;pavement outside 1,Glanawmor needing tarmac;subsidence at the top of Alltwalis hill.There is no money to improve the road surface in Gwyddgrug at present.

c)Camerau Diogelwch i'r Cornel Chwarae—mae PIDA angen gwybod y gost fydd i'r Pafiliwn.Pan fydd cynrychiolwyr o'r cwmnïau yn dod mas,fe wahoddir aelodau PIDA hefyd.We will invite members of PIDA when we meet reps from the c.c.t.v. companies with a view to install cameras to overlook the Play Corner.

ch)Pensiynnau—nid yw Lyn Evans,ein cyfrifydd yn gweithio ar bensiynnau.Cynnigiodd Keith Lewis enw Gareth Jones,ac eiliodd Raymond Lewis.We will ask Gareth Jones to act as our nominated officer for the Pensions Regulator.

d)Yn dilyn y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir a fyddai'n bosib i Tina Jones,Siop Sglodion,Pencader dderbyn tâl am gael y biniau ail-gylchu gwydr ar safle ei busnes,mae Mike McCauley wedi anfon e-bost i ddweud nad ydy hi'n bosib i'r Cyngor wneud cyfraniad.Yn dilyn nifer o ohebiaeth yn dod o'r Cyngor Sir yn un-iaith Saesneg,cynnigiodd Eirian Jones fod y Cyngor hwn yn gofyn i'r Cyngor Sir(Llinos Evans,Mark James,Mair Stephens)a ydynt yn gweithredu'r Polisi Dwyeithog.Eiliodd Annette Davies.It is not possible to recompense the Chip Shop in Pencader in any way for being kind enough to have the glass re-cycling bins on the premises.The Clerk will show a copy of the e-mail to the owner.Following a number of communications from the County Council in English only,Eirian Jones proposed that a letter be sent to the C.C.asking how exactly they operate their bi-lingual policy.Annette Davies seconded.

dd)Y Wefan—derbyniwyd cadarnhâd fod cofrestru'r wefan wedi digwydd,ac mae angen i ni benderfynnu beth i'w rhoi arni.Bydd angen rhestru enwau'r Cynghorwyr,a'r ardal maent yn ei chynrychioli.Cynnigiodd Eirian Jones ein bod yn gofyn (drwy Clecs) i'r Plwyfolion am unrhyw luniau o'r ardal,ac eiliodd Annette Davies.Ymhellach cynnigiodd Haulwen Lewis gynnwys lluniau o'r safleoedd o fewn y Plwyf mae'r Cyngor Cymuned yn gofalu amdanynt.Eiliodd Keith Lewis.Crewyd is bwyllgor gwefan—Val Davies i gadeirio,Eirian Jones,Melfyn Evans,Haulwen Lewis.Caiff y pwyllgor yma wneud y penderfyniadau beth fydd i'w cynnwys.The website domain has been registered as cc-llanfihangel-ar -arth-cc.org.uk for 2 years.A list of Councillors,and the area they represent will be posted,as well as photographs of theParish,and the sites looked after by the Council.There is a website sub-committee chaired by Val Davies,with members Eirian Jones,Melfyn Evans,Haulwen Lewis.

e)Ysiwriant AON yn ei le,ac mae'r Clerc wedi eu hysbysu am seddau/printer newydd/AON Insurance cover started.

f)Mynwent Llanfihangel—bydd y Cyngor yn archwilio safle'r bedd mae Margaret Rees yn gofalu amdano.

ff)Clerc—wedi bod yng ngyfarfod Fforwm Cyswllt.

g)Playdale—Darren Moore yn dymuno dod i'n gweld—cynnigir 30ain iddo/Playdale meeting 30/06.

6)Adroddiad ariannol/financial report: cafwyd yn gywir –Annette Davies yn cynnig,Raymond Lewis yn eilio.Biliau/bills to be paid:cyflogau yn cynnwys ôl-dâl/wages;Roy Thomas x 2 noticeboards-£1,048.00;Trywydd-£66.90;Costau'r Clerc(05/04—18/05)--£39.09;Sage re-newal--£162.00;HMRC--£188.60.Cynnigiodd Raymond Lewis fod rhain i'w talu,ac eiliodd Keith Lewis.Dywedodd y Clerc ei bod wedi anfon i TAW i ad-ennill y swm o £2,153.33/has been claimed as a VAT total for the year 14/15.

982) 7) Adran Gynllunio/Planning:

Doedd dim gwybodaeth/no information.

8) Gohebiaeth/Correspondence: Cyngor Sir Gâr/C.County Council:

a) Ail-leoli llwybr 13/71 a 13/72—Cefn y Bedd Alltwalis. Bydd y Cyngor yma yn gofyn i'r Cyngor Sir pwy sy wedi gwneud y cais, a phwy fydd yn talu. Proposal to divert footpaths 13/71 and 13/72—a letter from the County Council. This Council will ask who has made the application, and who will pay.

b) Holiadur a phoster ar ymgyngoriad annibyniaeth ar gyfer pobl hŷn/consultation on promoting independence for older people in our County—questionnaire and poster.

c) RDP booklet.

Eraill/other:

ch) E-bost oddiwrth y Cynghorwr Sian Thomas yn ymddiheurio na fydd yn y cyfarfodydd ar ol Mehefin am rai misoedd oherwydd llaw-driniaeth. Dymunwyd y gorau iddi gan y Cadeirydd. Councillor Sian Thomas will be going into hospital in the near future, and apologises for absences from meetings. Everyone wishes her well.

d) Un Llais Cymru—hysbysiad o bwyllgor ardal, a chofnodion. Area meeting One Voice Wales-Kidwelly, and minutes.

9) U.F.Arall/AOB:

1) Annette Davies—mae postyn fôn ar droead hewl Glantweli Fach ar oledd/telephone post—broken stay.

2) Sian Thomas— arwydd tro cyn y tai newydd angen sylw/raod sign needs attention. (Alltwalis)

3) C. Sir gofyn a fyddai'n syniad da i blant ysgol sy'n aros am eu bws ar sgwar Pencader i symud nes lawr achos fod wal Farmers (sy newydd ei phaentio) yn trochi. Asks if it is possible to ask school children, waiting for school transport, to move down to the vicinity of the closed toilet site. Mae swm o £150,000 gyda'r Cyngor Sir i'w wario i ddiogeli'r ffordd o Alltwalis i Lanybydder. The County Council has £150,000 to spend on road safety from Alltwalis to Lanybydder. Clecs are looking for a new editor.

Eirian Jones mae arwydd "chevron" ar droead Llandysul o Bencader (Penlan) wedi diflannu. Problems with road signs—the chevron sign is missing.

Melfyn Evans Hewl Talog tu fas Neuadd Deg mae twll yn y tarmac/pot hole outside Neuadd Deg, Llan'el.

Yvonne Griffiths tyfiant yn cuddio'r bin yng Ngwyddgrug ar droad Glennydd/bin hidden by overgrowth.

Haulwen Lewis ydy hi'n bosib symud y bin ar bwys Capel Tabernacl?/is it possible to re-locate the bin by Tabernacle?

Clerc Castell Du, Dolgran—mae dwy garafan fawr wedi eu gosod ar gae/ 2 large caravans have been positioned in Castell Du Dolgran.

983) Gorffennodd y cyfarfod am 9.20yh.

Agorwyd y tendrau am osod seddau newydd yn y Plwyf. Roedd 2 wedi ymgeisio, a chynnigiodd Eirian Jones fod Andrew Lewis, Llanllwni yn cael y gwaith, eiliodd Marc Jones, ac roedd pawb yn unfrydol. The project of re-newing and re-placing parish benches will be given to Andrew Lewis, Llanllwni.

10) Adroddiad ariannol/financial report:

Taliadau/payments:

Derbyniadau/receipts:

Haydn Jones	264.15	Yn y Banc Mehefin 7fed	£72,184.48
Janet Jones	142.13	Williams, San Cler (carreg fedd	
Anita Evans	376.18	Teulu Berllan, Gwyddgrug)	50.00
Costau'r Clerc	39.09	Mansel Griffiths (tâl am hen	
Roy Thomas	1,048.00	beiriant torri porfa'r Fynwent)	120.00
Trywydd	66.90		
Sage	162.00		
HMRC	186.80		

Cyfanswm: £2,285.25

£72,354.48

Yn y Banc Gorffennaf 8fed 2015

£70,069.23

Costau'r Clerc o Ebrill 5ed i Mai 18ed

Roy Thomas—talu am 2 hysbysfwrdd yn Alltwalis.

Sage—tâl aelodaeth blynyddol y pecyn treth incwm.

